(This document is also available in English)

**Datganiad Tegwch Amdani! Conwy**

**Gwrth-hiliaeth / Gwrth-drais / Gwrth-wahaniaethu**

Mae Amdani! Conwy yn canolbwyntio ar bobl. Ein nod yw dod â phobl o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol at ei gilydd. Rydym ni’n gweithio dan yr egwyddor nad oes diwylliant heb bobl.

Safwn yn erbyn pob math o wahaniaethu cymdeithasol, hiliaeth a rhagfarn. Mae’r datganiad hwn yn rhoi ein hymrwymiad i ddiogelu gwirfoddolwyr, staff a’r cyhoedd mewn ysgrifen. Mae’r gwaith yma’n berthnasol i’r amgylchiadau canlynol:

- Gwaith cyffredinol a dyddiol prosiect Amdani! Conwy
- Digwyddiad lle mae gwirfoddolwyr Amdani! Conwy yn profi gwahaniaethu
- Digwyddiad lle mae gwirfoddolwyr Amdani! yn gyfrifol am wahaniaethu
- Digwyddiad lle mae gwirfoddolwyr Amdani! Conwy yn gweld ac yn adrodd am wahaniaethu

**Deddfwriaeth**

Mae Amdani! Conwy yn cydnabod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cadw at y Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae’r deddfwriaethau hyn yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle a’r gymdeithas ehangach ar sail oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

**Cydgyfeiriadedd**

Mae Amdani! Conwy yn cydnabod bod gan unigolion nodweddion lluosog. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod pobl yn wynebu gwahaniaethu ar sail nodweddion nad ydynt wedi’u rhestru dan y deddfau swyddogol a deddfwriaethau’r wlad. Safwn yn erbyn gwahaniaethu a rhagfarn o bob math, sy’n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddosbarth, cenedligrwydd a statws dinasyddiaeth unigolion.

**(This document is also available in English)**

**Tegwch**

Rydym ni'n credu mewn tegwch, sy'n golygu cydnabod nad yw pawb yn dechrau yn yr un lle, a bod ar rai angen mwy o amser, adnoddau a lle i gael mynediad at yr un profiadau ag eraill. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud addasiadau i anghydbwysedd yn eu gweithgareddau ac yn y gymdeithas ehangach.

**Parch ac Urddas**

Bydd gwirfoddolwyr Amdani! Conwy yn trin pawb gyda pharch ac urddas, beth bynnag fo'u cefndir a'u hunaniaeth. Ni fyddent yn gwneud rhagdybiaethau a ni fyddent yn goddef unrhyw fath o iaith na gweithredoedd hiliol, trawsffobig na gwahaniaethol.

**Gweithredu**

Os nad ydym ni'n gwybod, yna ni allwn weithredu. Felly mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel a bod gwirfoddolwyr a'r cyhoedd yn rhoi gwybod am achosion sy'n gysylltiedig ag Amdani! Conwy yn syth bin. Bydd gwirfoddolwyr a staff yn ystyried pob adroddiad o ddifrif.

Dan y datganiad hwn rydym ni'n ymrwymo i'r canlynol:

- Gweithio gyda chefnogwyr gwirfoddolwyr i nodi rhwystrau yn eu gwasanaethau. Byddwn hefyd yn trefnu hyfforddiant iddynt gymryd cyfrifoldeb yn eu gwasanaeth ac i wneud addasiadau rhesymol.
- Bod yn bwynt cyswllt i wirfoddolwyr, staff a'r cyhoedd roi gwybod am unrhyw fater y mae gwirfoddolwyr Amdani! Conwy yn ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd.
- Trin gwybodaeth bersonol gyda gofal. Rydym ni'n casglu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig at ddibenion ymchwil a thrwy'r llwyfannau a ddefnyddiwn i reoli'r rhaglen. Bydd y wybodaeth hon wastad yn cydnabod yr hawl i wrthod.
- Derbyn hawl unigolion i aros yn ddienw wrth adrodd.
- Cyfeirio unigolion at gymorth lles priodol. Bydd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau ar gais. Bydd rhestr o gymorth iechyd meddwl a lles arbenigol ar gael. Bydd gan rai o'r rhain ffocws arbennig ar Nodweddion gwarchodedig penodol. Mae'r rhain ar gael isod.

- Darparu gwybodaeth am ddiweddariadau perthnasol a chamau gweithredu a gymerwyd i sefydliadau lletyol. Er nad ydym ni'n gyfrifol am weinyddiaeth sefydliadau lletyol bydd Amdani! Conwy yn agored o ran sut a phryd y caiff gwybodaeth ei rhannu a phan wneir adroddiadau ac i bwy.
- Gweithio gydag unigolion sy'n rhoi gwybod am faterion i uwchgyfeirio'r mater i awdurdodau priodol pan fo achosion o drais ac aflonyddwch nad yw ein tîm yn gymwys i ddelio â nhw.
- Trefnu cyfleoedd dysgu drwy Amdani! Conwy i staff a gwirfoddolwyr ar yr holl feysydd uchod.
- Gwrando ar a dysgu o brofiadau bywyd y bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.
- Pan fo achosion o wirfoddolwyr yn mynd yn groes i unrhyw un o'r cytundebau uchod, byddant yn cael eu tynnu o'r rhaglen ar unwaith a bydd achosion mwy difrifol yn cael eu hadrodd wrth yr awdurdodau priodol.

Tîm Amdani! Conwy:
- Jasmine Pilling – Rheolwr Rhaglen Gwirfoddoli
- David Cleary – Swyddog Mynediad a Chynhwysiant

Mae modd cysylltu â nhw ar y manylion cyswllt isod drwy e-bost, dros y ffôn neu neges destun:

E-bost: Amdani@cvsc.org.uk
Ffôn | Testun: 07643932409

Os nad ydynt ar gael, mae angen cysylltu â Chyngor Conwy, mae'r manylion fel a ganlyn:

Rhif Ffôn: 0300 456 1111
Rhif Ffôn y tu allan i oriau arferol: 0300 123 3079
Ffacs: 01492 576330
E-bost: lles@conwy.gov.uk

**(This document is also available in English)**

Mae yna ffurflen ar-lein y mae arnoch chi angen ei llenwi os ydych chi'n teimlo bod angen adrodd am bryder yn ymwneud â diogelu. Mae modd canfod y ffurflen yn yr adnoddau ar dudalen gynnwys y ddogfen hon.

**Cymorth Lles**

Os ydych chi'n teimlo bod arnoch chi angen cymorth lles ac iechyd meddwl, dyma restr o adnoddau ar-lein a sefydliadau y gallwch chi gysylltu â nhw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Tîm Pobl Ddiamddiffyn
- Dewis Cymru
- Mind Conwy
- Hwb Iechyd Meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru – Rhadffôn 0800 132 737 neu anfonwch neges destun at 81066
- Umbrella Cymru (Gwasanaethau Cefnogi LHDTC+)
- Diverse Cymru (Gwasanaethau Cefnogi BAME) – Hwb Iechyd Meddwl a Lles

**Traethodau ac adnoddau sy'n hysbysu ein gwaith**

- Multiculturalism – helping everyone to make sense of the World!, 2023. Traethawd byr gan Dr Sibani Roy, NWAMI (NETWORKING FOR WORLD AWARENESS OF MULTICULTURAL INTEGRATION) https://docs.google.com/document/d/1ddILSYBvdzf3P8Y6YN0dXRAO-1g3BgL5/edit?usp=sharing&ouid=101230957626324824689&rtpof=true&sd=true

- Amdani! Conwy: Llawlyfr Hyfforddi https://docs.google.com/document/d/1A3C0a4Sr9-XSqDS-maEVXyRYh67qdkHU/edit?usp=sharing&ouid=101230957626324824689&rtpof=true&sd=true

- Celfyddydau Anabledd Cymru: Inclusive Language and Imagery: https://docs.google.com/document/d/1O8MpVyeweaQqNe4OMyNj

Egq3QXGHo7K2/edit?usp=sharing&ouid=101230957626324824689&rtpof=true&sd=true

- Adnodd Hygyrchedd Amdani! https://drive.google.com/file/d/10mdRMVyUNHE7tAw4ZgGjUi1TIpw-26t6/view?usp=sharing

**Polisïau**

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
- **Polisi Diogelu Corfforaethol**
- **Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data**
- **Polisi Cwynion a Chanllawiau**